# Nodiadau Cefndirol - Cofrestriadau a chofrestriadau hwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch yng Nghymru ym mlwyddyn academaidd 2020-21

## Pwrpas a chwmpas y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cyflwyno data ar gofrestriadau a chofrestriadau hwyr ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru.

Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) yn sefydliad aelodaeth sy'n cynnwys saith darparwr cymwysterau yn y DU, gan gynnwys y rhai sy'n dyfarnu cymwysterau TGAU a Safon Uwch. Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau yn cyhoeddi dyddiadau cau ar gyfer cofrestru ar ran y byrddau arholi. Os bydd cofrestriad yn cael ei wneud ar ôl y dyddiad cau, mae'n cael ei ystyried fel cofrestriad hwyr ac efallai y bydd yn rhaid talu cost ychwanegol.

Mae ysgolion a cholegau yn gyfrifol am gyflwyno cofrestriadau i fyrddau arholi ar gyfer TGAU a Safon Uwch ar ran eu myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn cael eu cofrestru ar wahân ar gyfer pob uned neu gydran sy'n rhan o gymhwyster. Mae cofrestriad yn cael ei gyfrif fel myfyriwr yn cael ei gyflwyno ar gyfer asesiad unigol, tra bod ardystiadau yn cyfeirio at y cymhwyster cyffredinol. Ar gyfer y cymwysterau TGAU a Safon Uwch hynny sy'n llinol, mae'r cofrestriadau ar lefel cymhwyster. Mae ysgol neu goleg yn cyflwyno cofrestriadau i'r bwrdd arholi perthnasol ar ran eu myfyrwyr.

## Ffynhonnell y Data

Mae cyrff dyfarnu yn cyflwyno data i ni ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch maen nhw wedi'u dyfarnu yng Nghymru yn ogystal â chofrestriadau a chofrestriadau hwyr. Mae cyrff dyfarnu yn anfon data atom ni ar gyfer pob cyfres arholiadau. Byddwn ni'n cysylltu ag unrhyw ddarparwr nad yw'n dychwelyd set gyflawn o ddata o fewn y cyfnod casglu i wneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl. Ar gyfer y datganiad hwn, fe wnaethon ni dderbyn data gan yr holl gyrff dyfarnu.

## Cyfyngiadau data a chymariaethau

Cofrestriad hwyr, at ddibenion ystadegol, yw cofrestriad a gaiff ei dderbyn ar ôl hanner nos ar y dyddiad cau ar gyfer pob cyfres arholi. Nid oedd data a ddarparwyd yn flaenorol gan CBAC yn defnyddio'r diffiniad hwn. Mae'r data yn y datganiad hwn yn defnyddio data CBAC wedi'i gywiro sy'n defnyddio'r diffiniad hwn. Nid yw'r diffiniad o

gofrestriadau hwyr a ddefnyddir at ddibenion ystadegol yn golygu bod yn rhaid i ganolfannau dalu ffi i'r corff dyfarnu am bob un o'r cofrestriadau hwyr hyn. Mae gan gyrff dyfarnu ddyddiadau gwahanol pan godir ffi am fod yn hwyr ac felly nid yw'r ystadegau cofrestru hwyr o reidrwydd yn cynrychioli nifer y cofrestriadau y codwyd ffi hwyr amdanyn nhw.

Ers 31 Mai 2020, nid yw CCEA bellach yn cael ei reoleiddio gan Cymwysterau Cymru ond mae ei ffigurau hanesyddol wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau bod y data'n gyflawn.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys data a allai gael ei effeithio gan ganslo arholiadau haf 2020, Ionawr 2021 a haf 2021 o ganlyniad i bandemig COVID-19. Gall patrymau mewn cofrestriadau fod yn wahanol i flynyddoedd blaenorol ac efallai na fyddant yn gynrychioliadol o sut y byddai cofrestriadau wedi edrych pe bai arholiadau wedi mynd rhagddynt yn ôl yr arfer. Oherwydd effaith y pandemig, nid oes modd cymharu ffigurau ar gyfer 2019/20 a 2020/21 yn uniongyrchol â'i gilydd nac unrhyw flynyddoedd eraill.

Ar gyfer haf 2021, cafodd arholiadau eu canslo, ac ni chafodd dysgwyr eu cofrestru ar gyfer asesiadau unigol. Yn hytrach, gwnaed cofrestriadau i ddysgwyr dderbyn gradd cymhwyster gyffredinol. O ganlyniad, nid yw'r diffiniad o gofrestriad a ddefnyddir yn y datganiad hwn yn berthnasol i haf 2021. Felly, nid yw data cofrestriadau wedi'i gynnwys yn y datganiad hwn ar gyfer haf 2021. Nid effeithiwyd ar gyfanswm data tystysgrifau ac fe'i darperir ar gyfer haf 2021 yn nhabl 3.

Casglwyd data gan fyrddau arholi ar adegau priodol fel y nodir yn ein amserlen gofnodi, pan fydd yn weddol gyflawn. Gall nifer y cofrestriadau terfynol amrywio ychydig.

## Amdanom ni a'n hystadegau

Cymwysterau Cymru yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru.

Mae Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 yn ein henwi yn un o'r cyrff o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Mae'r datganiad yma'n cael ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol, gan gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

## Sicrhau ansawdd

Er bod Cymwysterau Cymru yn disgwyl i gyrff dyfarnu ddarparu data cywir i ni, ni allwn warantu bod y wybodaeth a roddir yn gywir. Mae manylion o ran sut rydyn ni'n sicrhau ansawdd y data yma'n cael eu cynnwys yn ein Datganiad Interim am Ansawdd Ystadegol a Sicrhau Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad ystyrir bod yr ystadegau'n addas i'r diben.

## Diwygiadau

Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi, ni fydd y data yma fel arfer yn cael eu diwygio, ond efallai y caiff datganiadau dilynol eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall. Ceir mwy o wybodaeth yn ein Polisi Diwygiadau a Chywiriadau.

## Talgrynnu a Chyfrinachedd

Yn unol â pholisi allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, mae ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0 yn cael eu disodli gan *. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw data'n datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ffigyrau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd yn cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r canrannau i gyd yn seiliedig ar ffigyrau sydd heb eu talgrynnu. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddan nhw'n cyfateb i'r cyfanswm.

## Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae geirfa o dermau ar gael ar ein gwefan i'ch helpu i ddehongli'r datganiad yma. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau'r dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cronfa ddata QiW yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

## Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r un yma, gan gynnwys:

- Cofrestriadau mis Tachwedd, a datganiad ystadegol cofrestriadau'r haf yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru.
- Datganiad ystadegol cofrestridau a chofrestriadau hwyr a gyhoeddwyd gan Ofqual.
- Adroddiad blynyddol 'canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Defnyddwyr yr ystadegau hyn ac adborth

Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i fonitro'r system gymwysterau. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn debygol o fod o ddiddordeb i Ofqual a rheoleiddwyr cymwysterau eraill, cyrff dyfarnu, canolfannau (ysgolion a cholegau) a Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n croesawu unrhyw adborth ar yr ystadegau hyn ac mae modd eu darparu drwy e-bost at ystadegau@cymwysteraucymru.org.

*© (2022) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.*